CarnegieUK TRUST

CHANGING MINDS • CHANGING LIVES

**TAFLEN FFEITHIAU'R WLAD**

# Mesur caredigrwydd, cyfranogiad ymhlith y cyhoedd a lle

## Profiadau pobl yng Nghymru



Yn 2018, cyhoeddwyd data gan Carnegie UK Trust yn ystyried profiadau pobl o garedigrwydd, cyfranogiad ymhlith y cyhoedd a lle yng Nghymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban. Roedd yr ymchwil yn cynnwys cyfres o gwestiynau i'n galluogi, am y tro cyntaf, i 'fesur' agwedd pobl tuag at weithredu ar y cyd, ac i gymharu atebion ar draws awdurdodaethau, lleoedd a grwpiau cymdeithasol.

- Gofynnom i bobl am y **LLE** roeddent yn byw ynddo.
- Gofynnom i bobl i ba raddau y maent yn profi **CAREDIGRWYDD** yn eu cymunedau ac wrth ddefnyddio gwasanaethau cyhoeddus.
- A gofynnom i bobl *am eu barn* ynghylch mathau gwahanol o **GYFRANOGIAD YMHLITH Y CYHOEDD**.

Cynhaliwyd yr ymchwil gan Ipsos MORI ar ran yr Ymddiriedolaeth. Defnyddiwyd samplu cynrychiadol ar hap i ddewis 1,000 o bobl ym mhobun o'r pum awdurdodaeth ddeddfwriaethol yn y DU ac Iwerddon.

Mae'r daflen ffeithiau hon yn cynnwys y data sy'n berthnasol i Gymru, lle holwyd **1,011 o oedolion** dros 16 oed. Os yw'n berthnasol, gwneir cymariaethau ag ystadegau o awdurdodaethau eraill.

**DATA O AWDURDODAETHAU ERAILL**

Mae taflenni ffeithiau ar gyfer Lloegr, Iwerddon, Gogledd Iwerddon a'r Alban, yn ogystal â llyfryn data sy'n cymharu'r pum awdurdodaeth ac yn rhoi mwy o fanylion ynghylch methodoleg a dadansoddi, ar gael i'w llwytho i lawr yn http://bit.ly/quantifying-kindness. Os hoffech gael mynediad at y setiau data ar ffurf SPSS, cysylltwch ag info@carnegieuk.org.

## Y DARLUN YNG NGHYMRU

Pan ofynnwyd iddynt hunan-nodi lle'r oeddent yn byw, 'pentref' a 'thref' oedd y disgrifiadau mwyaf poblogaidd o ran lle yng Nghymru. Mae dau ym mhob pump o bobl Cymru yn byw mewn tref, dau o bob pump arall yn byw mewn cymunedau gwledig, gydag un o bob pump yn unig yn byw mewn dinasoedd.

Mae'r rhan fwyaf o bobl yng Nghymru yn profi caredigrwydd yn eu cymunedau ac yn ei ailadrodd yn eu hymddygiad eu hunain. Mae llai o bobl yn teimlo'n gryf ynghylch hyn, ond mae'r rhan fwyaf o bobl yn dal i 'gytuno'n gryf' eu bod yn gwneud ymdrech i siarad â'u cymdogion (53%) ac y gallent ddibynnu ar gymydog i roi cymorth ymarferol iddynt (54%) neu i gadw llygad ar y tŷ pe baent yn mynd i ffwrdd (63%).

Mae'r darlun yn un tebyg wrth sôn am wasanaethau cyhoeddus: mae dros 85% yn cytuno'n gyffredinol bod pobl yn cael eu trin yn garedig gan yr heddlu, y gwasanaeth gofal cymdeithasol a thrafnidiaeth gyhoeddus, ond mae llai na thraean yn teimlo'n gryf am hyn. Fodd bynnag, mae hanner poblogaeth Cymru yn teimlo bod ganddynt y lefelau cywir o reolaeth dros wasanaethau cyhoeddus.

### GEIRIO'R CWESTIWN

**Lle** - gofynnom i bobl i hunan-nodi eu lle trwy ddefnyddio graddfa 6 phwynt cyffredin.

**Caredigrwydd mewn cymunedau** – gofynnom i atebwyr feddwl am 'bobl yn yr ardal hon', heb gynnwys aelodau o'r teulu neu unrhyw un sy'n byw gyda nhw; bwriad y cwestiynau oedd cynrychioli'r cysyniad o garedigrwydd, a dod â natur ddeuffordd caredigrwydd i'r golwg – hynny yw, rhoi a derbyn caredigrwydd.

**Caredigrwydd mewn gwasanaethau cyhoeddus** – roeddem eisiau gwybod am brofiadau uniongyrchol ac anuniongyrchol o wasanaethau cyhoeddus, ond nid safbwyntiau wedi'u dylanwadu gan y cyfryngau; felly gofynnom i bobl am "eich profiad eich hun, neu'r hyn rydych chi wedi'i glywed oddi wrth aelod o'r teulu neu ffrind agos."

**Cyfranogiad ymhlith y cyhoedd** nid yn unig beth mae pobl yn ei wneud oedd o ddiddordeb i ni, ond i ba raddau y mae pobl yn meddwl bod hyn yn effeithiol - ac i ba raddau mae gwahaniaeth yn bodoli rhwng agwedd ac ymddygiad pobl.

## SUT MAE CYMRU'N CYMHARU

Mae poblogaeth drefol Cymru yn debyg i weddill y DU (nid Iwerddon), ond mae'r gwahaniaeth rhwng ardaloedd trefol a gwledig yn llawer mwy amlwg. Mae cyfran y bobl sy'n byw mewn cymunedau gwledig yn uwch yng Nghymru nag unrhyw awdurdodaeth arall yn yr arolwg, a Chymru sydd â'r gyfran leiaf o bobl sy'n nodi eu bod yn byw mewn dinasoedd.

Nododd atebwyr yng Nghymru eu bod yn profi lefelau tebyg o garedigrwydd i'r rheini yn Iwerddon a Gogledd Iwerddon, gyda thua hanner y boblogaeth yn cytuno eu bod yn rhoi ac yn derbyn cefnogaeth. Roedd lefelau honedig caredigrwydd yn uwch nag yn Lloegr, ond ychydig yn is na'r Alban.

Gellir gwneud yr un gymhariaeth wrth sôn am brofiadau o garedigrwydd mewn gwasanaethau cyhoeddus, lle mae Cymru yn uwch na Lloegr, yn debyg i Iwerddon a Gogledd Iwerddon, ond yn is na'r Alban. Yn annhebyg i awdurdodaethau eraill, lle gwelir patrwm trefol-gwledig i brofiadau o garedigrwydd, y rheini sy'n byw mewn trefi yng Nghymru sy'n profi'r lefelau isaf o garedigrwydd - mewn cymunedau a gwasanaethau cyhoeddus.

**Mae cyfran y bobl sy'n byw mewn cymunedau gwledig yn uwch yng Nghymru nag unrhyw awdurdodaeth arall yn yr arolwg, ac yng Nghymru mae'r gyfran leiaf o bobl sy'n nodi eu bod yn byw mewn dinasoedd.**

**Yng Nghymru, y rheini sy'n byw mewn trefi sy'n profi'r lefelau isaf o garedigrwydd - mewn cymunedau ac mewn gwasanaethau cyhoeddus.**


## LLE

### Hunan-nodi lle

| | | |
|---|---|---|
| **Dinas – 21%** | Dinas fawr | 8% |
| | Maestref neu gyrion dinas fawr | 8% |
| | Dinas fechan | 5% |
| **Tref – 37%** | Tref | 37% |
| **Gwledig – 42%** | Pentref | 39% |
| | Cefn Gwlad | 3% |

Cymru sydd â'r gyfran leiaf o bobl yn byw mewn dinasoedd a'r gyfran fwyaf o bobl yn byw mewn ardaloedd gwledig mewn unrhyw awdurdodaeth yn y DU ac Iwerddon.


### Hunan-nodi lle yn ôl gradd gymdeithasol




Roedd pobl mewn dinasoedd yn fwy cyfoethog na'r rhai sy'n byw mewn trefi neu ardaloedd gwledig...

ond maent yn nodi lefelau is o foddhad bywyd na'r rheini sy'n byw mewn trefi a phentrefi.

### Hunan-nodi lle yn ôl boddhad bywyd





Roedd gan -breswylwyr dinasoedd yng Nghymru lefelau is o foddhad bywyd nag unrhyw le arall yn y DU ac Iwerddon.

# CAREDIGRWYDD MEWN CYMUNEDAU A GWASANAETHAU CYHOEDDUS

## Y DARLUN EHANGACH

### Profiadau o garedigrwydd mewn cymunedau: "cytuno" yn erbyn "cytuno'n gryf"


O feddwl am eich ardal leol, a heb gynnwys aelodau o'r teulu neu bobl sy'n byw gyda chi, i ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r canlynol?




Fel gweddill yr arolwg, mae pobl yng Nghymru, ar y cyfan, yn profi caredigrwydd, ond mae'r niferoedd sy'n teimlo'n gryf am hyn yn llawer is.

### Profiadau o garedigrwydd wrth ddefnyddio gwasanaethau cyhoeddus: "cytuno" yn erbyn "cytuno'n gryf"

O feddwl am eich profiad eich hun, neu'r hyn yr ydych wedi'i glywed oddi wrth aelod o'r teulu neu ffrind agos, i ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod pobl yn cael eu trin yn garedig wrth ddefnyddio...





Yng Nghymru, mae cyfran y bobl sy'n profi caredigrwydd mewn meddygfeydd yn is na phob man arall heblaw Lloegr.

## CAREDIGRWYDD MEWN CYMUNEDAU A GWASANAETHAU CYHOEDDUS


### FFOCWS AR RYWEDD

**Profiadau o garedigrwydd mewn cymunedau yn ôl rhywedd ("cytuno'n gryf")**




Mae menywod yng Nghymru yn fwy tebygol o deimlo bod ganddynt rywun i droi atynt i dderbyn cefnogaeth.

**Profiadau o garedigrwydd wrth ddefnyddio gwasanaethau cyhoeddus yn ôl rhywedd ("cytuno'n gryf")**




Mae menywod yn nodi lefelau uwch o garedigrwydd wrth ddefnyddio gwasanaethau'r heddlu a llyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru.

### NODYN AR Y GWAITH DADANSODDI


Mae'r rhan fwyaf o bobl yn y DU ac Iwerddon yn **cytuno, ar y cyfan,** eu bod yn profi caredigrwydd, ond mae llai o bobl yn **teimlo'n gryf** ynglŷn â hyn. Penderfynom ddefnyddio'r data "cytuno'n gryf" fel ymateb mwy cadarnhaol, sy'n awgrymu teimladau cryf o garedigrwydd ac ymgysylltu. Maent hefyd yn dangos amrywiaeth mwy sylweddol ymysg profiadau grwpiau cymdeithasol gwahanol.

Pan edrychom ar garedigrwydd mewn gwasanaethau cyhoeddus, y bwriad oedd adrodd ar brofiadau go iawn, ac felly mae maint y sampl yn diystyru'r rheini a atebodd "ddim yn gwybod" ym mhob categori unigol.

# CAREDIGRWYDD MEWN CYMUNEDAU A GWASANAETHAU CYHOEDDUS


## FFOCWS AR RADD GYMDEITHASOL

**Profiadau o garedigrwydd mewn cymunedau yn ôl gradd gymdeithasol ("cytuno'n gryf")**




Yn gyffredinol, mae profiadau o garedigrwydd yn uwch ymysg graddau cymdeithasol uwch.

**Profiadau o garedigrwydd wrth ddefnyddio gwasanaethau cyhoeddus yn ôl gradd gymdeithasol ("cytuno'n gryf")**





Yng Nghymru, roedd graddau cymdeithasol uwch yn fwy tebygol o brofi caredigrwydd mewn llyfrgelloedd cyhoeddus – mae'r ffigwr yn debyg yn Lloegr, ond yn yr Alban ac yng Ngogledd Iwerddon, roedd y gwrthwyneb yn wir.

Wrth ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus (a gwasanaethau gofal cymdeithasol), roedd yr C2DE yn profi lefelau uwch o garedigrwydd.

# CAREDIGRWYDD MEWN CYMUNEDAU A GWASANAETHAU CYHOEDDUS


## FFOCWS AR OEDRAN

**Profiadau o garedigrwydd mewn cymunedau yn ôl oedran ("cytuno'n gryf")**




Mae profiadau o garedigrwydd yn tueddu i gynyddu gyda phob grŵp oedran – er bod y rheini sy'n 'ganol oed' yn fwy tebygol o fod wedi rhoi cymorth i rywun yn ystod y 12 mis diwethaf.

**Profiadau o garedigrwydd wrth ddefnyddio gwasanaethau cyhoeddus yn ôl grŵp oedran ("cytuno'n gryf")**





Yn annhebyg i awdurdodaethau eraill, mae pobl yn y grwpiau oedran hŷn ac ifanc yn profi gwasanaethau 'mwy caredig' na'r rheini yn y grŵp 'canol oed'

## CAREDIGRWYDD MEWN CYMUNEDAU A GWASANAETHAU CYHOEDDUS


### FFOCWS AR LE

**Profiadau o garedigrwydd mewn cymunedau yn ôl lle ("cytuno'n gryf")**




Preswylwyr trefi oedd y rhai lleiaf tebygol o brofi caredigrwydd yn eu cymuned.

**Profiadau o garedigrwydd wrth ddefnyddio gwasanaethau cyhoeddus yn ôl lle ("cytuno'n gryf")**





Cymru sydd â'r gwasanaeth trafnidiaeth gyhoeddus 'mwyaf caredig' o bob un o awdurdodaethau'r DU ac Iwerddon.

# CYFRANOGIAD YMHLITH Y CYHOEDD

## Y DARLUN EHANGACH


### Teimladau o reolaeth dros wasanaethau cyhoeddus




Mae hanner poblogaeth Cymru yn teimlo bod y lefel gywir o reolaeth ganddynt dros wasanaethau cyhoeddus.

### Agweddau at gyfranogiad ymhlith y cyhoedd


Pe baech eisiau gwella rhywbeth am eich ardal leol, pa mor effeithiol ydych chi'n credu fyddai pob un o'r dulliau canlynol?




Mae pobl yng Nghymru yn ystyried mai gwirfoddoli yw'r ffurf mwyaf effeithiol o gyfranogi'n gyhoeddus...

### Ymddygiad o ran cyfranogiad ymhlith y cyhoedd

A phe baech eisiau gwella rhywbeth am eich ardal leol, pa mor debygol ydych o wneud y canlynol?





...ond maent yn fwy tebygol o wneud cwyn neu gysylltu â chynrychiolydd etholedig.


# CYFRANOGIAD YMHLITH Y CYHOEDD

## FFOCWS AR RYWEDD

### Teimladau o reolaeth dros wasanaethau cyhoeddus yn ôl rhywedd





### Agweddau at gyfranogiad ymhlith y cyhoedd yn ôl rhywedd ("effeithiol iawn")




Mae menywod yn fwy tebygol o feddwl bod gwirfoddoli'n effeithiol...

### Ymddygiad o ran cyfranogiad ymhlith y cyhoedd yn ôl rhywedd ("tebygol iawn" ac "wedi gwneud")





...ac adlewyrchir hyn yn eu hymddygiad: mae menywod yn ystyried eu hunain yn fwy tebygol o gynorthwyo mewn elusen leol.

# CYFRANOGIAD YMHLITH Y CYHOEDD


## FFOCWS AR RADD GYMDEITHASOL

### Teimladau o reolaeth dros wasanaethau cyhoeddus yn ôl gradd gymdeithasol





Yng Nghymru, mae graddau cymdeithasol uwch yn llai tebygol o fod yn fodlon â'u lefel o reolaeth dros wasanaethau cyhoeddus.

### Agweddau at gyfranogiad ymhlith y cyhoedd yn ôl gradd gymdeithasol ("effeithiol iawn")




Fodd bynnag, nid oes patrwm clir yn ôl gradd gymdeithasol o ran agweddau ac ymddygiad at gyfranogiad ymhlith y cyhoedd.


### Ymddygiad o ran cyfranogiad ymhlith y cyhoedd yn ôl gradd gymdeithasol ("tebygol iawn" ac "wedi gwneud")



# CYFRANOGIAD YMHLITH Y CYHOEDD


## FFOCWS AR OEDRAN

### Teimladau o reolaeth dros wasanaethau cyhoeddus yn ôl oedran




Yng Nghymru, y rheini yn y grŵp oedran 'canol oed' sydd leiaf tebygol o fod yn fodlon â'r lefel o reolaeth sydd ganddynt dros wasanaethau cyhoeddus.


### Agweddau at gyfranogiad ymhlith y cyhoedd yn ôl oedran ("effeithiol iawn")




Fel yng ngweddill y DU ac Iwerddon, mae pobl hŷn yn fwy tebygol o ystyried bod cysylltu â chynrychiolydd etholedig yn effeithiol...

...ond mae grwpiau oedran iau yn credu bod gwirfoddoli yn ffordd fwy effeithiol i wella eu hardal leol.

### Ymddygiad at gyfranogiad ymhlith y cyhoedd yn ôl oedran ("tebygol iawn" a "wedi gwneud")





Er mai un ym mhob pedwar yn unig sy'n ystyried ei fod yn effeithiol, mae 37% o'r rheini sydd dros 55 oed yn fwy tebygol o gysylltu â chynrychiolydd etholedig.

## CYFRANOGIAD YMHLITH Y CYHOEDD


### FFOCWS AR LE

**Teimladau o reolaeth dros wasanaethau cyhoeddus yn ôl lle**





Poblogaeth wledig Cymru sydd fwyaf tebygol o deimlo nad oes ganddynt ddigon o reolaeth dros wasanaethau cyhoeddus.

**Agweddau at gyfranogiad ymhlith y cyhoedd yn ôl lle ("effeithiol iawn")**




Pobl mewn dinasoedd sydd fwyaf tebygol o ystyried bod cyfranogi'n gyhoeddus yn ffordd effeithiol o wella'r ardal leol –yn enwedig trwy wirfoddoli.

**Ymddygiad o ran cyfranogiad ymhlith y cyhoedd yn ôl lle ("tebygol iawn" a "wedi gwneud")**




Yng Nghymru, mae pobl mewn trefi yn dueddol o fod yn llai tebygol o gyfranogi'n gyhoeddus.

Nod Carnegie UK Trust yw gwella bywydau pobl ledled y DU ac Iwerddon, drwy newid meddyliau wrth ddylanwadu ar bolisi, a thrwy newid bywydau drwy arferion arloesol a gwaith mewn partneriaeth. Sefydlwyd Carnegie UK Trust gan y dyngarwr Albanaidd-Americanaidd Andrew Carnegie yn 1913.

**Andrew Carnegie House**
**Pittencrieff Street**
**Dunfermline**
**KY12 8AW**

**Ffôn: +44 (0)1383 721445**
**Ffacs: +44 (0)1383 749799**
**Ebost: info@carnegieuk.org**
**www.carnegieuktrust.org.uk**

Ysgrifennwyd yr adroddiad hwn gan Ben Thurman a Jennifer Wallace
Mehefin 2019

CarnegieUK TRUST

CHANGING MINDS • CHANGING LIVES

Carnegie United Kingdom Trust
Registered Charity No: SC 012799 operating in the UK
Registered Charity No: 20142957 operating in Ireland
Incorporated by Royal Charter 1917

ISBN 978-1-912908-20-2